OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 1156 (Cy. 239)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022

Gwnaed - - - -	*8 Tachwedd 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -	*10 Tachwedd 2022*
Yn dod i rym - -	*1 Rhagfyr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

(**1**) 1981 p. 22. Diffinnir y term "the Ministers" yn adran 86(1)(c). Mae swyddogaethau a roddwyd i "the Ministers" o dan y Ddeddf, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Senedd Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r gofyniad i gael cymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 84(1) wedi ei ddatgymhwyso.